

# Llais y Gymanfa 2026



Blas ar weithgarwch Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2026

## Argraffiadau'r Ysgrifennydd Cyffredinol



Cynhaliwyd y Gymanfa Gyffredinol eleni yng Nghapel y Porth, Porthmadog. Roedd yr awyrgylch a'r croeso yn arbennig o gynnes, adeiladol a chalonogol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Gapel y Porth ac i bawb a fu'n gyfrifol am y trefniadau ac am eu croeso hael yn ystod y ddeuddydd.

Bu'n Gymanfa hynod o adeiladol, a'r holl argymhellion a gyflwynwyd yn cael eu derbyn. Cafwyd trafodaethau gonest ond cadarnhaol, ac roedd awydd amlwg i wrando ar ein gilydd a dirnad ewyllys Duw ar gyfer y dyfodol. Penderfynwyd rhoi caniatâd i ddechrau ar weithredu'r cam nesaf o'r broses ailstrwythuro. Ar ôl cyfnod estynedig o ymgynghori ledled y Cyfundeb, rydym yn ddiolchgar iawn am yr hyder a roddwyd ynom i symud ymlaen. Bydd y gwaith bellach yn canolbwyntio ar roi'r penderfyniadau ar waith mewn ffordd ofalus ac ymarferol, gan sicrhau mai gweinidogaeth a chenhadaeth fydd wrth galon pob newid.

Roedd hefyd yn bleser arbennig croesawu Ny Ako o Fadagasgar i'n plith i'r ganolfan ym Mhorthmadog. Braf oedd cael cwmni pobl leol Porthmadog yn y cyngerdd ar y nos Lun.

Ar y bore Mawrth clywsom am y cynlluniau newydd ar gyfer Coleg y Bala, a chawsom y fraint o groesawu Lois Franks, a fydd ym mis Awst ynghyd â Ben ei gŵr a'r plant yn symud i Goleg y Bala. Bydd hon yn bennod newydd ym mywyd y Coleg wrth i waith newydd ddatblygu yno mewn partneriaeth ag eglwysi, mudiadau ac enwadau eraill, gan gryfhau rôl y Bala fel canolfan hyfforddiant, cenhadaeth a gwaith ymhlith plant ac ieuencid. Dymunwn bob bendith a rhwyddineb i'r 6 ohonynt wrth iddynt ymgartrefu yn y Bala.

Parhaodd y Gymanfa hefyd i ddangos ei hymrwymiad dwfn i'n partneriaid ym Manipur, gan ddiolch am ymateb hael eglwysi ac unigolion ledled Cymru i'r apêl a'r gefnogaeth barhaus mewn gweddi. Mae'r berthynas arbennig hon, sydd wedi ei gwreiddio mewn dros 180 mlynedd o hanes, yn parhau i fod yn dystiolaeth o undod Cristnogion ar draws y byd.



Yn y ddarlith Hanes eleni cyflwynodd Dr Gareth Evans-Jones fyfyrddod deallusol a heriol ar y berthynas rhwng treftadaeth Anghydffurfiol Cymru, cydwybod Gristnogol, a'r cwestiynau moesol sy'n codi yn sgil digwyddiadau megis Tryweryn a'r gwrthdaro yn Israel a Phalesteina. Roedd yn ddarlith a'n gwahoddodd i feddwl yn ddyfnach am gyfiawnder, heddwch a chyfrifoldeb Cristnogol. Yn yr un modd, cafwyd cyfraniad gwerthfawr iawn gan y Parch. Ddr Andras Iago yn y Ddarlith Davies, a gyfunodd ysgolheictod diwinyddol â ffydd fyw, gan ein hannog i weld bod diwinyddiaeth nid yn unig yn ymarfer academaidd, ond yn sail i addoli, disgyblaeth a gwasanaeth. Roedd y ddwy ddarlith yn dystiolaeth o'n traddodiad cryf fel Cymry, ond yn arbennig fel Anghydffurfwyr Cymreig.

Hyfryd hefyd oedd cael rhannu gwaith tecstilïau cywrain iawn Cefyn Burgess, gwaith sy'n arddangos logo'r Cyfundeb, patrymau o Gymru ac o ogledd-ddwyrain yr India. Mae'r cynllun ar gael i unrhyw un o'n Heglwysi ni ei fwynhau.



Os oes gennych ddiddordeb, yna ehostiwch y Swyddfa ar [Swyddfa.office@ebcpcw.cymru](mailto:Swyddfa.office@ebcpcw.cymru). Diolch i bawb a ddaeth i'r Gymanfa eleni, am eich cwmni ac am eich gwaith diflino i wneud Cymanfa Gyffredinol 2026 yn gymanfa adeiladol a hapus.

Dechreuodd ein taith ailstrwythuro flwyddyn yn ôl yn Llandudno, a chyfeiriwyd at eiriau'r proffwyd Eiseia....*"Edrychwch, yr wyf yn gwneud peth newydd."* Heddiw, wedi penderfyniadau'r Gymanfa Gyffredinol, dewch i ni wir ddirnad ein galwad yng ngweddill yr adnod..... *"Y mae'n tarddu yn awr; oni allwch ei adnabod?"* Ein gweddi yw y bydd gennym y ffydd a'r doethineb i adnabod y ffyrdd newydd y mae Duw yn eu hagog ger ein bron – *ffordd yn yr anialwch ac afonydd yn y diffeithwch*. Dyna'r her, ond hefyd dyna'r addewid.



Ny Ako

## Adeiladau: Stiwardio Mannau Cysegredig er mwyn Cenhadaeth, Cymuned a Chof

Bydd agenda'r rhan fwyaf o gynadleddau a chynulliadau'n nodi cyfres o bynciau ac yn eu trefnu'n eitemau agenda ar wahân gyda'u trefn yn y rhaglen a'u slotiau amser wedi'u pennu. Nid yw'r Gymanfa Gyffredinol ddim gwahanol yn yr ystyr bod yr agenda'n nodi holl bynciau pwysig y dydd, Ailstrwythuro, adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol, adroddiad yr Adran Gweinidogaethau, adroddiad yr Adran Adnoddau ac ati. Ond mae rhai pynciau nad ydynt yn ffitio'n dda mewn seilios, maent yn torri ar draws amryw o feysydd felly pe na byddech yn ofalus byddai'r holl eitemau agenda uchod (ac eraill) yn cynnwys rhywfaint am yr un pwnc. Os ydym yn ffodus, byddant i gyd yn cytuno, ac os felly dim ond diflasu a wnawn ni, os na chytunant fe wnawn ni ddiflasu a drysu hefyd!

Mae defnydd, cost, a stiwardiaeth ein hadeiladau ni'n un o'r pynciau hynny. Felly, fe benderfynwyd cyfuno'r holl adroddiadau gwahanol hyn i ffurfio'r un eitem hon ar yr agenda'n ymwneud ag Adeiladau.

Gall ein hadeiladau ni fod yn fendith ac yn fudd, ac yn sicr maent yn lleoliad sy'n gysylltiedig â llawer o atgofion melys. Ond mae tystiolaeth argyhoeddiadol, a bron pawb yn derbyn, bod adeiladau'n rhy aml yn mynd yn fwrn, a hwythau'n gofyn am ormodedd o amser, arian, ymdrech, ac adnoddau dynol. Ar lefel eglwys unigol mae hyn yn fater sy'n peri gofid i lawer ohonom, ond ar lefel ein henwad mae'n amlwg bod ein hystad bresennol o adeiladau'n


anghynaliadwy ac yn mynd yn andwyol i Genhadaeth a Gweinidogaeth. Ystyriwn ryw faint o'r dystiolaeth:

- Mae dadansoddiad o'r datganiadau ariannol blyneddol yn dangos bod 53% o'n gwariant yn mynd ar adeiladau o'i gymharu â 31% ar Weinidogaeth, sut mae hynny'n ffitio o fewn ein hamcanion a'n pwrpas?
- Mae gennym fwy o adeiladau nag sydd eu hangen ar ein haelodaeth bresennol. O'r adeiladau capel sy'n eiddo inni, mae tua 108 o gapeli (24% o'n hystad) yn cael eu rheoli gan 5% o'n holl aelodaeth, mewn cynulleidfaoedd â llai na 10 aelod.
- Mae tua 202 o gapeli (46% o'n hystad) yn cael eu rheoli gan 27% o'n holl aelodaeth mewn cynulleidfaoedd â llai na 24 aelod.
- Mae hynny'n rhoi cyfanswm o 70% o'n hadeiladau'n cael eu rheoli gan 32% o'n holl aelodaeth mewn cynulleidfaoedd sy'n llai na'r diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol o "eglwys fach" yn y DU.



Gobaith Clothing

## Gwariant ar draws yr enwad



Mae costau perchenogi, rheoli a chynnal adeiladau o fath eglwysig, a llawer ohonynt yn adeiladau rhestredig, wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Fel y dangosir uchod, nifer fach o aelodau yn rhy aml sy'n cwrdd â'r costau hyn, rhywbeth sy'n gyflym yn mynd yn anfforddiadwy. Ystyrier yr eitemau cost nodweddiadol i gapel:

- Cyfraniad Cenhadaeth a Gweinidogaeth
- Treuliau gweinidogaeth leol
- Yswiriant
- Ynni i wresogi a goleuadau, a chost dŵr a chyfleustodau eraill
- Cynnal a chadw, (profion/arolygiadau statudol a hefyd cynnal a chadw yn y drefn arferol)
- Atgyweiriadau

O'r eitemau cost hyn, dim ond y swm a delir i'r Cyfraniad Cenhadaeth a Gweinidogaeth sy'n dibynnu ar nifer yr aelodau, mae'r lleill i gyd tua'r un peth p'un ai 10 ynteu 110 o aelodau sy'n cwrdd â'r costau. Â'r cynulleidfaoedd bach iawn hyn mae'r costau'n debygol o fynd yn anfforddiadwy, ni chaiff adeiladau eu gwresogi yn y gaeaf, caiff cynnal a chadw ac atgyweiriadau eu hesgeuluso ac ni chaiff cyfraniadau gweinidogaeth a chenhadaeth hyd yn oed mo'u talu, dirywiad o dipyn i beth. Rwyf wedi cael llawer i sgwrs â phobl sy'n disgrifio eu hadeilad capel fel anghyfforddus, anaddas i'r diben, o bosib yn anniogel, ac yn anneniadol, nodweddion na fyddem byth, mae'n debyg, yn fodlon eu goddef mewn unrhyw agweddau eraill ar ein bywyd ac nad ydynt, yn bendant, yn rhoi'r math o groeso a wnaiff dynnu eraill atom.

Yr eironi yw ein bod yn dal i garu'n heglwys gartref ni, beth bynnag fo ei chyflwr, yn rhannol, y bobl yr ydym yn cydaddoli gyda hwy yw hi ac yn rhannol yr atgofion, a'r gweddïau sy'n rhan o hanfod yr adeilad.

Ni allwn anwybyddu'r ffaith, fodd bynnag, fod ein hystad bresennol o adeiladau'n anghynaliadwy. Felly sut y gallwn



Carmel, Beauford



Havelock St., Casnewydd

ni leihau'r baich a chynyddu'r fendith a roddir gan ein hadeiladau?

Yr ateb yw ein bod eisoes wedi dechrau!

Ar ôl llawer o ymgynghori a thrafodaeth am ein hadeiladau gan y Grŵp Polisi a Strategaeth, cytunwyd yng Nghymanfa Gyffredinol 2024 i ffurfio Gweithgor Adeiladau, ynghyd â Chylch Gorchwyl y Gweithgor.

Y peth cyntaf a wnaeth y gweithgor oedd cynnig a threfnu'r Gynhadledd lwyddiannus iawn ar Adeiladau o dan y teitl "Beth yw ystyr y meini hyn?". Os dim byd arall, cododd y gynhadledd ymwybyddiaeth o'r problemau â'n hystad a'n helpu i sylweddoli ein bod yn ymgodymu â'r un materion a chwestiynau â'r rhan fwyaf o enwadau eraill. Mae'n debyg nad cyd-ddigwyddiad yw hi bod yr ymateb i'r Cynnig Ailstrwythuro ar gyfer ein Hadeiladau yn cytuno i raddau helaeth iawn â'r holl drafodaethau blaenorol yn y Grŵp Polisi a Strategaeth ac yn y Gynhadledd Adeiladau.

Cyflwynwyd adroddiad y gynhadledd yng Nghymanfa Gyffredinol y llynedd, ac fe gytunwyd ar sawl cam gweithredu.

- Sefydlu gweledigaeth o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni o ran gwell stiwardiaeth o'n mannau cysegredig.
- Cynnal arolwg o'n holl adeiladau capel ac eglwys.
- Penodi aelod newydd o'r staff neu gorff allanol i weithio gyda chapeli lleol a Henaduriaethau i'w helpu i wneud gwell defnydd o'u hadeiladau ac wrth wneud hynny i wneud ein hystad yn llai o faich.

### Felly, pa gynydd sydd wedi'i wneud ers y llynedd?

Mae'r **ddogfen weledigaeth** wedi cael ei chynhyrchu. Mae'n dwyn y teitl "**Ffydd nid Ofn**" ac fe'i hanfonwyd allan at yr holl eglwysi yn rhan o bostiad Nadolig y llynedd. Ein gweledigaeth yw i bob capel ac eglwys ganolbwyntio ar ymestyn allan a bod:

- **Yn ysbrydol fywiog** – wedi'i wreiddio mewn addoliad a bod yn ddisgyblion, gan gyfarparu pobl i fyw a rhannu'r efengyl gyda ffydd sy'n ysbrydoli gobaith.
- **Yn ymgysylltu â'r gymuned** – yn adnabod ac yn gwasanaethu eu cymuned yn weithredol trwy ymateb ac addasu i anghenion y gymuned leol gyda thrugaredd, cyfiawnder a lletygarwch.
- **Wedi'u rheoli'n gynaliadwy** – gydag adeiladau sy'n addasadwy, yn gyfrifol yn amgylcheddol, ac yn hyfyw yn ariannol.

- **Adeiladau croesawgar** – yn cefnogi ymestyn allan, cenhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys yn addas.
- **Cydweithio mewn cenhadaeth** – gweithio ochr yn ochr ag eglwys, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i gael mwyafrif o effaith.

Y mae'n nod uchelgeisiol, ond diben gweledigaeth yw rhoi rhywbeth i anelu ato.

Bydd yr **arolwg o'r holl adeiladau** yn holiadur, sydd erbyn hyn ar gael ac yn barod i fynd. Mae angen iddo gael ei lenwi a'i gyflwyno ar lein, ond fe ddarperir copi papur fel y cewch weld yr holl gwestiynau a, lle bo angen, casglu'r wybodaeth at ei gilydd cyn ei rhoi i mewn ar lein.

Bydd y rhan fwyaf o gapeli'n gwbl alluog i gwblhau'r arolwg heb ormod o anhawster, bydd ar eraill angen peth cymorth. I wneud hyn **mae gan bob Henaduriaeth gynrychiolydd wedi'i enwi** a wnaiff ddosbarthu'r holiadur ac a all eich cynorthwyo os bydd angen. Holiadur ffeithiol iawn yw ef heb fod angen fawr o wybodaeth dechnegol, cyhyd â'ch bod yn adnabod eich capel eich hun, ei leoliad, a'i weledigaeth at y dyfodol.

Ie, gorchwyl mawr yw ef, rydym yn gwybod hynny, ac rydym yn gwybod nad ydym yn hoff o holiaduron, ond dyma'r ffordd gyflymaf a mwyaf costeffeithiol o lunio darlun gwybodus o'n hystad. Bydd hefyd yn darparu pecyn gwybodaeth gwirioneddol ddefnyddiol a wnaiff ganiatáu i'r aelod newydd o'r staff weithio gyda chapeli a henaduriaethau cyn gynted ag y caiff ei b/phenodi.

Rydym yn eich annog chi i gyd yn gryf i fod yn rhagweithiol, os nad ydych wedi cael yr holiadur cysylltwch â Chynrychiolydd eich Henaduriaeth (os nad ydych yn gwybod pwy yw hwnnw/honno anfonwch air atom ni). Dechreuwch siarad am wneud gwell defnydd o'ch adeiladau a'ch cynlluniau at y dyfodol.

### **Felly, beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r Gweithgor Adeiladau i fod i gyfarfod ym mis Medi lle cynhyrchir disgrifiad swydd ar gyfer yr aelod staff (neu gorff) newydd arfaethedig. Pan fydd y penodiad wedi'i wneud, bydd ganddynt lawer o wybodaeth ar gael iddynt o'r holiadur fel y gallant gychwyn yn gyflym ar y gwaith o gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer ein haddoldai.



Mae'n anorffod na fydd angen rhai o'n hadeiladau ddim rhagor, rydym am i hyn fod oherwydd penderfyniad cadarnhaol wedi'i gynllunio a gaiff ei wneud gan swyddogion ac aelodau'r eglwys leol mewn partneriaeth â'r Henaduriaeth, nid oherwydd bod yr achos wedi cau. Mae llawer o esiamplau da lle mae achosion wedi gwneud y penderfyniad dewr i waredu eu hadeilad ond i barhau i addoli a ffynnu gyda'i gilydd heb y baich o adeilad drud, nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon. Mae rhychwant o opsiynau ar gael:

- Uno: dod ynghyd â chynulleidfya arall yn EBC.
- Gweithio'n eciwmenaidd: ffurfio partneriaeth eciwmenaidd gydag enwad arall.
- Rhannu: cwrdd fel achos sy'n bodoli eisoes mewn adeilad nad ydych yn berchen arno, eglwys arall neu adeilad cymunedol er enghraifft.

Ond mae arnom angen gwell ffordd o ddatblygu neu bennu defnydd newydd i'r adeiladau nad oes arnom eu hangen yn hytrach na'u gwerthu ar y farchnad agored (yn aml am brisiau isel iawn). Nid datblygwr eiddo mo EBC, ein cynllun yw dod o hyd i bartneriaid egwyddorol y gallwn weithio gyda hwy sy'n gallu gwneud hyn ar ein rhan, efallai nid i bob adeilad nad oes arnom ei angen fwyach, ond yn sicr i rai.

Mae hyn i gyd yn newid sylweddol, ffyrdd newydd o weithio, gweledigaeth newydd ar gyfer ein hadeiladau ond a ydym yn sicr y gwnaiff ein rheolau ni ganiatáu inni wneud yr hyn y mae angen inni ei wneud? Gorchwyl i'r gweithgor adeiladau yw adolygu'r rheolau am adeiladau i sicrhau nad ydynt yn rhwystr nac yn ddatgymhelliad i'n gweledigaeth ar gyfer ein hadeiladau.

**Steve Wynn**



# Crynodeb o'r Anerchiad Bore Mawrth Gymanfa 2026

## 1 Thesalonïaid 5:12-28

Wrth inni ymgynnull ar ail ddiwrnod y Gymanfa, gwnaethpwyd hynny fel gweithwyr, gweinidogion, lleygwyr ac blaenoriad sy'n adnabod llawenydd a her y weinidogaeth. Mae llawer yn gwasanaethu yng nghanol dirywiad mewn niferoedd, pwysau cynyddol, a newid sylweddol ym mywyd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Nid yw Paul yn anwybyddu realiti anodd, ond mae'n ein hatgoffa bod ein gobaith wedi ei seilio nid ar ein hamgylchiadau ond ar ffyddlondeb Duw.

Mae'r apostol yn ein hannog yn gyntaf i garu a chefnogi ein gilydd. Mae'r weinidogaeth yn waith sy'n gofyn am ddyfalbarhad, amynedd ac undod. Wrth ofalu am eraill, rhaid inni hefyd ofalu am ein cyd-weithwyr yn yr Efengyl, gan annog y gwan, cynnal y digalon a byw mewn heddwch.

Yna mae Paul yn rhoi tair gorchymyn sy'n ganolog i fywyd y Cristion: **"Byddwch lawen bob amser, gweddiwch yn ddi-baid, a diolchwch ym mhob amgylchiad."** Nid galwad i anwybyddu anawsterau yw hon, ond i edrych yn gyson ar Grist. Mae'r Arglwydd yn dal ar ei orsedd, mae'r Efengyl yn dal yn achub, ac mae'r Ysbryd Glân yn dal ar waith.



Hedd Morgan

Mae Paul hefyd yn ein rhybuddio i beidio â diffodd gwaith yr Ysbryd, ond i brofi pob peth yn ôl yr Ysgrhythur a dal yn gadarn wrth yr hyn sy'n dda. Trwy gydol hanes y Beibl, mae Duw wedi defnyddio'r hyn sy'n ymddangos yn fach ac yn wan i gyflawni ei ddibenion mawr.

Yn olaf, daw'r sicrwydd sy'n sail i'n gobaith: **"Ffyddlon yw'r hwn sydd wedi eich galw, ac fe'i gwna."** Nid ein cryfder ni sy'n sicrhau dyfodol yr Eglwys, ond ffyddlondeb Duw ei hun. Felly gallwn wynebu'r dyfodol gyda llawenydd, gweddi a diolchgarwch, gan wybod mai Crist yw Pen ei Eglwys ac y bydd ei ewylllys yn sefyll am byth.

## Cyfarfod Gweddi

<https://us02web.zoom.us/j/86840505238?pwd=Sho6MhRb5mNbPv2INjU5RarncQcSIj.1>

Meeting ID: 868 4050 5238

Passcode: 259186

|                                                                                              |                                                                     |
|----------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|
| <b>EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU</b>                                                            |                                                                     |
| <b>CYFARFOD GWEDDI</b>                                                                       |                                                                     |
| <b>CENEDLAETHOL, O'CH</b>                                                                    |                                                                     |
| <b>CARTREF, AR ZOOM</b>                                                                      |                                                                     |
| AM FWY O WYBODAETH:<br>Y PARCHG OWEN GRIFFITHS<br>OWEN.GRIFFITHS@EBCPCW.CYMRU<br>07811727340 | <b>NOS IAU 2IL GORFFENNAF</b><br><b>7.00 YR HWYR I 8.00 YR HWYR</b> |



# Ap Gweddi.Prayer

Dyweddodd rhywun unwaith am weddi: “Hiraeth yr enaid ydyw. Cydnabyddiaeth ddyddiol o wendid dyn.” Os dyna yw gweddi, byddwn i'n ychwanegu mai chwilio am ddymuniadau Duw ac ymateb beunyddiol i gariad yr Hollalluog ydyw hefyd. Ers i bobl gerdded y ddaear gyntaf, rydym wedi wynebu ein gwendid. Oherwydd hynny, rydym hefyd wedi bod angen dod wyneb yn wyneb â'r Un y mae ei gariad yn hollalluog. Dyna pam mai gweddi yw'r arfer mwyaf hynafol oll. Felly, pam bod angen ap arni'n sydyn?

Yr ateb, wrth gwrs, yw nad oes angen ap ar weddi. Ond gall ap ein helpu i weddio'n fwy gwybodus am y byd o'n cwrpas.

Gweddi.Prayer yw ap gweddi newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ei bwrpas yw helpu'r Cyfundeb i gysoni ei ddyheadau â rhai Crist, Pen yr Eglwys ac Arglwydd y Greadigaeth, a gwneud hynny yn y ffordd fwyaf gwybodus bosibl.

Mae'r ap wedi ei adeiladu o amgylch tri dyddiadur gweddi. Mae'r cyntaf yn tynnu sylw'r defnyddiwr at faterion o arwyddocâd cyfundebol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r ail yn ddyddiadur gweddi lleol sy'n anfon anghenion gweddi henaduriaeth y


defnyddiwr yn uniongyrchol i'w ffôn. Yn olaf, mae Gweddi.Prayer yn caniatáu i ddefnyddwyr greu eu dyddiadur gweddi personol eu hunain. Bob dydd, anfonir hysbysiadau atynt gyda'r pynciau gweddi perthnasol – cenedlaethol, lleol a phersonol.

Mae'r ap hefyd yn cynnwys y newyddion diweddaraf o Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Ceir ynddo ddolenni i fideos a phregethau sydd wedi'u cynhyrchu gan yr eglwys ac i wefannau sy'n berthnasol i'r materion y mae'n gwahodd y defnyddiwr i weddio drostynt.

Yn ddiweddar, mae Gweddi.Prayer hefyd wedi dechrau cynnig defosiwn sain wythnosol o'r enw Man Tawel. Myfyrdod byr ar ran o'r Ysgrythur yw hwn, sy'n rhoi cyfle i'r gwrandawr ymgysylltu'n bersonol â'r testun. Mae'n ymddangos ar yr ap bob Sul, ac mae'r hen ddefosiynau'n cael eu harchifo fel y gellir gwrando arnynt eto unrhyw bryd. Ar hyn o bryd, Y Parchg Gethin Russell-Jones

sy'n recordio'r defosiynau hyn. Ein bwriad yw recriwtio mwy o gyfranwyr er mwyn ehangu'r weinidogaeth hon a chynnig defosiynau yn amlach yn y dyfodol.

*Y Parchg Owen Griffiths*



# Gweddi.Prayer



Ap gweddi yr EBC | The PCW prayer app

Gweddiwch dros Deyrnas Duw  
Pray for the Kingdom of God

Siapiwch eich bywyd gweddi  
Organise your own prayer life

Gweddiwch gydag eraill o fewn EBC  
Pray with others within the PCW



## “Bwrdd y gegin yn fwrdd cymun”



### Anerchiad cyn y Cymun.

Aeth John Roberts a ni at arferiad Crist o “dorri bara”. Roedd yn arferiad cyffredin ganddo, a phobl yn ei adnabod ar doriad y bara, ac yna roedd yr Eglwys Fore yn cael ei hadnabod fel rhai yn “torri bara yn eu tai”. Defnyddio defod lldewig oedd Iesu, defod lle mae pen teulu yn cymryd bara, yn ddiolch amdano ac yn gwahodd presenoldeb Duw at y bwrdd. Mae’n ddefod sydd yn dod a’r bywyd ysbrydol i **ganol byw bob dydd**. Y perygl i’r eglwysi yw symud y torri bara o ganol byw bob dydd i le ar wahân, mewn oedfa achlysurol yn y capel.

Roedd yr Iesu yn newid y ddefod o dorri bara hefyd, ei droi yn ddigwyddiad **cynhwysol**. Roedd y sefydliad crefyddol yn ei feirniadu am fwyta gyda phublicanod a phechaduriaid, torri bara gyda’r gwrthodedig. Felly dylai bwrdd y cymun fod yn fan cynhwysol croesawgar.

Ychwanegodd Iesu elfen arall i’r torri bara, ei wneud yn gyfrwng **cofio** ei farwolaeth ar ei groes – cofio cariad sydd yn maddau, yn cryfhau, yn rhoi buddugoliaeth – ond yn ychwanegol yn deall ein poen a’n trallod, yn deall ein hofn ac yn cynnig cariad Un sydd yn cyd-deimlo gyda ni.

Yn olaf mae’r cymun hefyd yn galw arnom i **gyhoeddi** marwolaeth Crist. Drwy’r cymun yr ydym yn cael ei gwahodd i dderbyn ei gariad, ond dylai’r cariad hwnnw gael effaith ar ein bywyd. Dyma pam fod y cymun i fod yng nghanol ein byw bob dydd, rhaid i bobl weld dylanwad ac effaith ei gariad ef arnom ni.

## Coffâd am Weinidogion a hunodd oddi ar y Gymanfa ddiwethaf:

1954 Parchg Elwyn Pryse

1958 Parchg Arthur Meirion Roberts

1959 Parchg Dafydd H Owen, BSc, BD

1964 Parchg John Owen, BA, BD

1966 Parchg Philip de la Haye

1970 Parchg Gareth Edwards, BA, BD

1978 Parchg Marcus Robinson, BA, RN



## X EBC

[https://x.com/EBC\\_PCW](https://x.com/EBC_PCW)



# Apêl Manipur


Cyfarfod Gweddi Wythnosol, 9 o'r gloch bob Dydd Gwener

Rydym yn parhau i gyfarfod yn rhithiol dros zoom am 9 o'r gloch bob dydd Gwener i weddio dros Manipur. Mae criw ffyddlon yn mynychu'r cyfarfod, rhai yn aelodau o EBC, Cristogion o Manipur sydd wedi ymgyswrtredu yma yn y Deyrnas Unedig, ac eraill. Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno.

Ymddanosodd yr erthygl hon ar newyddion y WCRC (World Communion of Reformed Churches) yn adrodd am ein perthynas arbennig a talaith Manipur, Gogledd-ddwyrain yr India.

## Apêl Manipur EBC

Yn ystod y flwyddyn parhaodd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru i ymateb i'r argyfwng dybryd yn nhalaith Manipur yng Ngogledd-ddwyrain India, lle mae trais ethnig ers Mai 2023 wedi arwain at farwolaethau, dinistr helaeth, a dadleoli degau o filoedd o bobl. Mae llawer o bentrefi ac eglwysi wedi'u llosgi, ac mae miloedd wedi gorfod ffoi o'u cartrefi i chwilio am ddiogelwch mewn taleithiau cyfagos.



Mae ymateb EBC i'r argyfwng hwn wedi ei wreiddio mewn perthynas hanesyddol ddofn rhwng Cymru a Gogledd-ddwyrain India sy'n ymestyn yn ôl dros 180 o flynyddoedd. Gyda dyfodiad Thomas Jones a'i wraig Anne i Fryniau Casia ym 1841, dechreuodd perthynas o genhadaeth, partneriaeth a chyfeillgarwch sy'n parhau hyd heddiw. Yn ystod blynyddoedd y genhadaeth sefydlwyd eglwysi, ysgolion



ac ysbytai, ac mae'r cysylltiadau rhwng ein heglwysi yn parhau'n fyw ac yn gryf hyd heddiw.

Wrth weld maint y dioddefaint yn Manipur, lansiodd EBC apêl arbennig i gefnogi'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio, gyda sylw arbennig i anghenion addysg a gofal iechyd ymysg y rhai sydd wedi'u dadleoli.

Fodd bynnag, datblygodd yr ymateb yn gyflym i fod yn fwy nag apêl ariannol yn unig. Bob bore Gwener am 9 o'r gloch mae grŵp bach ond ffyddlon yn ymgynnull ar-lein i weddio gyda Christnogion o Manipur ac aelodau o'r diaspora Manipuri sydd yn byw ym Mhrydain. Nid gweddio dros bobl bell i ffwrdd yn unig yw hyn, ond gweddio gyda'n brodyr a'n chwiorydd mewn cyfnod o boen ac ansicrwydd.

Trwy'r Cyfarfod gweddi wythnosol hwn mae perthnasau dwfn wedi'u ffurfio ar draws cyfandiroedd a diwylliannau. Rhennir diweddariadau, gofidiau a gobeithion, ac mae'r profiad wedi atgoffa llawer ohonom beth yw gwir natur yr eglwys fyd-eang — un corff yng Nghrist sy'n sefyll gyda'i gilydd mewn dioddefaint a gobaith.

Yn ystod un o'r cyfarfodydd defnyddiwyd geiriau 2 Corinthiaid 4:8-9:

'Ym mhob peth yr ydym yn cael ein gorthrymu ond nid ein llethu, ein bwrw i ansicrwydd ond nid i anobaith, 9ein herlid ond nid ein gadael yn amddifad, ein taro i lawr ond nid ein dinistrio.'

Mae'r adnoddau hynny wedi dod yn symbol o wydnwch a ffyddlondeb yr Eglwys yn Manipur yng nghanol trais a cholled.



*Wrth inni barhau i weddio ac i roi, credwn fod yr apêl hon wedi bod yn fwy na gweithred o gymorth dyngarol; mae wedi bod yn dystiolaeth o undod Cristnogol a phartneriaeth fydeang mewn cyfnod o argyfwng. Pan fydd un rhan o gorff Crist yn dioddef, rydym oll yn cael ein galw i sefyll gyda'n gilydd mewn ffydd, gobaith a chariad.'*

### **Newyddion erchyll am weinidogion Bedyddiedig a lofruddwyd ym Mis Mai**

Dirdynol oedd clywed am lofruddiaeth tri gweinidog Bedyddiedig yn Manipur ym mia Mai. Mewn ymosodiad ger pentref Kotjim yn ardal Kangpokpi yn y dalaith lladdwyd y Parch. Vumthang Sitlhou — Cyn Ysgrifennydd Cyffredinol ac arweinydd allweddol yn ymdrechion heddwch parhaus Manipur — ynghyd â'r Parch. Paogoulun Sitlhou a'r Parch. Kaigoulun Simte. Anafwyd 4 arall yn ddifrifol yn y digwyddiad.

## **Adran y Chwiorydd**

“Ond y mae'r rhain wedi'u hysgrifennu er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi, trwy gredu, gael bywyd yn ei enw ef.” Ioan 20:31

Heb os nac oni bai, un o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon fu astudio adroddiadau am wyrthiau Iesu gyda merched o bob rhan o Gymru dros Zoom. Trwyddyt hwy, rydym wedi gweld sut y cadwodd Duw ei addewidion i anfon y Meseia i waredu ei bobl. Wrth wneud hynny, cawsom gipolwg ar gymeriad a gogoniant Mab Duw, yn llawn gras a gwirionedd, wrth iddo ddatgelu ei allu, ei awdurdod a'i dosturi. Mae'r adroddiadau am y gwyrthiau wedi ein hannog i sylweddoli mor fawr a dibynadwy yw ein Duw; maent wedi ein sicrhau fod gennym Archoffeiriad sy'n gallu cydymdeimlo â ni yn ein gwendid ac sydd â'r gallu a'r ewyllys i'n cynorthwyo. Maent hefyd wedi codi tipyn ar y llen er mwyn inni weld beth sydd o'n blaenau fel pobl Dduw, hyd nes y daw'r amser pan fydd y Brenin Iesu yn sefydlu ei Deyrnas yn ei chyflawnder. Am faint hyfryd fu cael cymdeithasu o amgylch y Gair. Diolchwn i Dduw am ddod yn agos atom a'n bendithio mor helaeth.

Uchafbwynt arall fu'r cyfleoedd i gyfarfod wyneb yn wyneb mewn eglwysi, Henaduriaethau a Sasiynau Cenhadol. Mae baich y merched i gefnogi cenhadaeth yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn parhau'n gryf ac, hyd yma, mae tua £22,000 wedi'i godi i'w ddosbarthu ymhlith pum prosiect

Roedd yr arweinwyr yn teithio adref o gyfarfod yn Churachandpur oedd yn trafod sut i ailadeiladu eglwysi a chymunedau sydd wedi'u dinistrio yn y trais ethnig. Mae'r digwyddiad trasig hwn yn tanlinellu pa mor fregus a pheryglus yw'r sefyllfa yn Manipur o hyd, er gwaethaf honiadau bod y sefyllfa wedi “dychwelyd i normalrwydd”.

Gweddiwn am heddwch cyfiawn, am ddiogelwch i'r rhai sydd mewn perygl, ac am ddiwedd ar y gwrthdaro sydd wedi achosi cymaint o ddiodeffaint i bobl Manipur.

Yn dilyn ein hymweliad a'r India nodwyd yn gir gyda'r PCI (Eglwys Bresbyteriaidd yr India) sut y buasem yn gwario arian a gasglwyd drwy ein 'Apel Manipur'. Cyfanswm yr arian a gasglwyd yn y diwedd oedd £47,982

***Y Parchg Nan Powell-Davies***

rhyngwladol, a mentrau cenhadol amrywiol yng Nghymru. Roedd y Sasiynau Cenhadol yn boblogaidd iawn, ac unwaith eto profwyd eu bod yn ffynhonnell bendith, gyda siaradwyr rhagorol a chyfeillgarwch cynnes. Mae ein merched hefyd wedi gwneud ymdrech arbennig i godi arian ar gyfer ein brodyr a'n chwiorydd ym Manipur, ac mae nifer ohonom yn ymuno â'r cyfarfod gweddi wythnosol ar Zoom dros Manipur.



Ein thema ar gyfer 2026/27 yw 2 Corinthiaid 13:14:

“Gras yr Arglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll.”

Ein gweddi ni yw y bydd astudio'r adnodau cyfarwydd hyn yn ffrydiau o ddŵr byw i'n llonni ac i roi bywyd i ni. Rydym wedi cynhyrchu llyfr adnoddau am ddim ar y thema, sy'n addas ar gyfer defnydd personol neu i'w ddefnyddio mewn grwpiau. Cysylltwch ag Eirian Roberts (erian.roberts@ebcpcw.cymru) i gael copïau.

Ar ddiwedd mis Awst bydd Carys Davies, Cydlynnydd Dorcas y Gogledd, yn ymddeol. Bydd yn drist iawn gennym ei cholli, ond wrth gwrs gweddiwn am fendith Duw arni yn y cyfnod newydd hwn yn ei bywyd. Mae Carys wedi cyfrannu'n aruthrol at Adran y Merched dros y deuddeg mlynedd diwethaf, a diolchwn i'r Arglwydd am ei doniau niferus ac am ei gwasanaeth ffyddlon, gostyngedig a llawen.

***Sarah Morris***



# Trefeca'n Edrych Ymlaen â Diolchgarwch a Gobaith

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae niferoedd ymwelwyr wedi parhau i godi, bu cynnydd yn y grwpiau sy'n dychwelyd, ac mae ystod ehangach o bobl yn darganfod Trefeca fel man lle ceir croeso, encilio, lletygarwch Cristnogol a chyfle i brofi'r Efengyl.

Yn ganolog i'r cynnydd hwn o hyd mae gwaith ymroddgar y tîm bach o staff, y mae eu cynhesrwydd, eu hyblygrwydd a'u gofal yn helpu i greu'r awyrgylch arbennig sy'n cael ei brofi gan westeion. Daw ymwelwyr o lawer o wahanol rannau o'r Eglwys a'r gymuned ehangach, a chwestiynau gan lawer ohonynt am ffydd, hanes Trefeca a stori Howell Harris a'r Diwygiad yng Nghymru.

Gan edrych ymlaen, bydd Trefeca'n gosod pwyslais cynyddol ar ddysg, encilio a ffurfiant Cristnogol. Datblygiad newydd arwyddocaol fydd yr Wythnosau Astudiaeth Ddiwinyddol arfaethedig, a ddarperir mewn partneriaeth â'r Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant. Bydd y rhain yn cynnig cyfleoedd i astudio diwinyddiaeth yng nghyd-destun gweddi, addoliad, cymuned, lletygarwch a chenhadaeth.

Mae paratodau hefyd yn dechrau ar gyfer 2027, sy'n marcio 275 mlynedd ers i Howell Harris sefydlu'r Teulu yn Nhrefeca. Mae rhaglen o addoliad, dysgu, myfyrdod




hanesyddol, encilio ac ymgysylltiad â'r gymuned yn cael ei datblygu, a thestun llawenydd mawr yw gwybod y caiff y Gymanfa Gyffredinol ei chynnal yn Nhrefeca ar gyfer yr achlysur arbennig hwn. Un enghraifft o hyn yw comisiynu Cadair goffa i Drefeca, lle defnyddir defnyddiau lleol a sgiliau crefftwrol traddodiadol.

Mae cadwraeth a stiwardiaeth gyfrifol yn parhau'n flaenoriaethau pwysig, gan gynnwys gwaith arfaethedig ar Dŷ Howell Harris a pharhau i godi arian i'r ystad ehangach.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn mynegi eu diolchgarwch am weddiâu a chefnogaeth y Cyfundeb. Wrth i Drefeca agosáu at y bennod newydd bwysig hon, y mae'n gwneud hynny â gostyngiedd rwydd a hyder, yn ffyddiog bod gan Dduw bwrpas o hyd i'r lle hanesyddol a byw hwn.

*Y Parch. Wayne Adams*



# Pwyllgor Cenadaethau



Y Parchg Jonathan Hodgins



Tim Heeley



Morgan Bryn

## Jonathan Hodgins, Gweithiwr Arleosol Keystone

Diolch i Dduw am gyfleon amrywiol i wasanaethu ein cymuned ac arddangos cariad Iesu! Dros y flwyddyn rydym ni wedi darparu llwyth o fwyd i deuluoedd trwy'r 'Food Hub', wedi cynnal diwrnod hwyl i dros gant o blant, wedi cefnogi unigolyn i ddysgu Saesneg (a phasio ei phrawf B1!), ac wedi cael gweithio gyda Troy, gweithiwr ieuenctid Henaduriaeth Northern, yn ein clwb ieuenctid.

Yn 'Keystone' mae wedi bod yn gyfle i wahodd pobl newydd i glywed yr efengyl. Mae'r bobl sy'n mynychu yn aml yn camu mewn i eglwys am y tro cyntaf erioed, ac mae'r cyfleon i'w cefnogi yn ymarferol yn ogystal a rhannu cariad Iesu yn fraint aruthrol.

## Sioned Roberts, Rhaglen Genhadol

Dwi wir wedi mwynhau y flwyddyn yma, mae wedi bod yn flwyddyn fendithiol iawn! Dwi'n gwerthfawrogi yr holl gefnogaeth dwi wedi ei gael gan Andras, Heledd, Sarah, a gweddill y tîm yn fawr iawn. Mae'r drws wastad ar agor, mae nhw mor ofalgar o bawb, ac rydw i mor ddiolchgar o'u cael yn cerdded gyda fi ar fy nhaith ffydd.

Fy ffocws pennaf oedd gweithio gyda plant a phobl ifanc - yn yr ysgolion sul a'r ysgolion lleol. Mae Baby Basics yn elusen sy'n darparu eitemau anghenrheidiol i deuluoedd a mamau newydd sydd mewn angen; fel dillad, pethau molchi, basgedi Moses ayyb. Mae'r gwasanaeth yma wir yn newid bywydau unigolion. Roedd clywed tystiolaeth un fam yn annogaeth enfawr i mi wrth iddi ddweud pa mor ddiolchgar oedd hi i

dderbyn y pecyn a'r gefnogaeth am nad oedd ganddi deulu na ffrindiau i'w helpu yn y cyfnod yma.

## Tim Heeley, Rhaglen Genhadol

Y tro cyntaf i mi arwain addoliad fel rhan o'r gwaith hwn oedd yng Nghapel Soar, Nercwys ym mis Mehefin 2025. Roedd 6 o bobl yn y gynulleidfa, gyda Huw, fy ngwraig a minnau. Wrth i ni ddechrau addoli roedd y canu'n harmoni 4 rhan hyfryd, ond dechreuais gael teimlad bod y capel yn llawn. Yn ogystal â'r 9 ohonom yn canu, gallwn glywed côr arall yn canu ac offeryniaeth gymhleth. Y diwrnod wedyn, pan gyrhaeddais adref o'r gwaith gofynnais i'm gwraig a oedd unrhyw beth yr oedd hi wedi'i sylwi yn Nercwys, ymatebodd gyda 'O, felly gwelast ti'r angylion hefyd. Wnes i ddim meddwl sôn amdano oherwydd pe bawn i wedi'u gweld roeddwn i'n siŵr y byddet ti wedi eu gweld hefyd'.

## Morgan Williams, Swyddog Ymestyn Allan Môn

Mae'r Cwrs Alfa newydd ddod i ben ac mae wedi bod yn gyfle arbennig i wneud 'deep dive' mewn i'r ffydd Gristnogol gyda nifer o'r capel. Hefyd, mae'r brechwast dynion misol wedi bod yn llwyddiant ac mae wedi bod yn braf i glywed tystiolaethau o waith Duw ym mywydau dynion ifanc.

Plis gweddiwch dros gynlluniau sydd ar y gweill. Yn gyntaf, ddiwedd mis Awst bydd gyda ni Glwb gwyliau pedwar diwrnod. Ac yna yn mis Medi byddwn ni'n dechrau gwasanaeth newydd anffurfiol yn Llanfairpwll er mwyn ceisio estyn allan i bobl sydd ddim yn dod i'r capel yn arferol

*Steffan Morris*




## Y Ddarlith Davies 2026

'Methodistiaeth Galfinaidd a'r Gymru newydd'

Y Parchg Dr Andras Iago

<https://youtu.be/HuCsNVof6s>



# Ffilmiau EBC

There are now over 730 films on Youtube! They can be viewed via the link below:

<https://www.youtube.com/channel/UCbq8MrpmPxSSkwt4Hh6VYMw/playlists>

These are the most popular films since the last Assembly.

- 2026 Easter Message – Glynis Owen. <https://youtu.be/1JcVlyq-bLQ>
- CVM (Christian Vision For Men) Cymru (Cymraeg) <https://youtu.be/jYEnQX7OsFk>
- CVM (Christian Vision For Men) Cymru (Saesneg) [https://youtu.be/Y\\_Gal0rakj8](https://youtu.be/Y_Gal0rakj8)
- Hope in Blaenau Gwent. <https://youtu.be/f2U1x1DIZHY>
- A Christams Message – Glynis Owen. <https://youtu.be/xtR5ilbAlt4>
- Hope in Ringland. <https://youtu.be/UvgaTXqOZl8>
- Gobaith ym Mhontypridd. [https://youtu.be/j1MIG4Go\\_PY](https://youtu.be/j1MIG4Go_PY)
- Hope in Pontypridd. <https://youtu.be/nUhpFkzABhU>
- A Christmas Song from Trefeca. <https://youtu.be/rjUNfbRipd8>
- Capel Coffa William Williams. <https://youtu.be/c37MJ7M-5Jg>
- William Williams Memorial Chapel. <https://youtu.be/Wy9NRd2zybl>
- HIV Lesotho. <https://youtu.be/LVnfDHgEMFE>
- 'I'll throw my heavy burden down.' Can gan Pat Thomas. <https://youtu.be/Bm6HLznXSaU>

## 15 O FFILMAU NEWYDD EBC - 15 NEW PCW FILMS




**Holi hwn a holi...Thomas Ellis Williams.**  
An interview with...Thomas Ellis Williams.

**8 ffilm am Parc Arts, Trefforest.**  
8 films about Parc Arts, Trefforest.

**Cyfweliad gyda'r Parchg Jonathan Hodgins ac eraill o Quayside, Cei Cŏnah.**  
An Interview with The Revd Jonathan Hodgins and others from Quayside, Cŏnah's Quay.

**Eiŋ Pregethwr gwadd heddiw yw...Thomas Ellis Williams.**  
Our visiting preacher today is...Thomas Ellis Williams.

<https://www.youtube.com/@ebcpw8450>



# Adroddiad Adran Eglwys a Chymdeithas

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud y gwaith canlynol:

1. Cefnogi'n fras egwyddorion mesur digartrefedd llywodraeth Cymru,
2. Parhau i godi heriadau mynediad i fanciau mewn cymunedau ledled Cymru, a sut mae hyn yn cael effaith andwyol ar eglwysi gwledig a chynaliadwydd cymunedau; hefyd sut mae'n achosi pegynnu yn y gymdeithas ar gyfrwng y defnydd o arian (arian parod neu daliadau arlein).
3. Fe godwyd y pwnc yng nghyfarfod Grwp Trawsbleidiol ar Ffydd Senedd Cymru, pan ddaeth elusen Trussell i gynnal seminar am dlodi bwyd yng Nghymru. Mae'r Trysorlys yn Llundain wedi agor arolwg i'r cyhoedd ar y mater y dylai'r Cyfundeb ymateb iddo.
4. <https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/access-to-banking-services-review-call-for-evidence/access-to-banking-services-review-call-for-evidence#objectives-of-the-call-for-evidence>



5. Diolchwn i bawb sydd wedi gohebu gyda'i Haelodau Seneddol yn San Steffan ar fater mesur hunanladdiad â chymorth (Terminally ill Adults (End of Life) Bill). Erbyn hyn fe syrthiodd y bil. Mi fydd angen i ni edrych yn ofalus ar hynt strategaeth iechyd meddwl ac atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru o nawr mlaen.
6. Dysgu mwy am ad-drefniad y Cyfundeb.

## Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant

Cyfarfu'r Adran ddwywaith ers y Gymanfa ddiwethaf. Yng ngoleuni'r drafodaeth ar Ailstrwythuro pwysleisiwyd lle canolog hyfforddiant, a thanlinellwyd yr angen am hyfforddiant ffurfiannol, hyfforddiant mewn swydd, hyfforddiant diwinyddol a'r rheidrwydd i gynnull pobl ynghyd i ddibenion dysgu a hyfforddi.

Penderfynwyd fod yr Adran yn adolygu'r defnyddiau ar gyfer hyfforddi blaenoriaid a'r modd y cânt eu cyflwyno, a bwriedir sefydlu patrwm o ddwy wythnos astudio diwinyddiaeth y flwyddyn yng Ngholeg Trefeca ar gyfer pwy bynnag fydd â diddordeb.

Bu i bedwar o bobl ddilyn y cwrs Sacramentau yn Gymraeg yn ystod y misoedd diwethaf, a phedwar ar ddeg yn



Fel Swyddog Adran rwyf wedi cynorthwyo aelodau unigol gyda dilyn diddordebau lleol mewn materion eglwys a chymdeithas, ac yn cynorthwyo'r sawl sydd am ail-sefydlu pwyllgorau lleol.

Rwyf hefyd wedi cychwyn cefnogi rhywun sydd wrthi'n sefydlu elusen Gristnogol ddwyieithog ar gyfer gwasanaethu merched a anfonir i wardiau iechyd meddwl. Mae angen dirfawr yn y maes hwn, nid y lleiaf am fod wastad potensial yn y maes am ddifriio ffydd fel agwedd o salwch meddwl yn hytrach na pheth llesol ym mywyd y claf.

Yn olaf, ond nid y lleiaf, rwyf wedi bod yn monitro'n ofalus yr ymgyrchu ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, a'r newid yn y gweithdrefnau a ddaeth gyda'r gyfundrefn newydd o bleidleisio. Fe etholir cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd maes o law, ac fe fydd modd gweithio allan yn ystod yr wythnosau nesaf i ble y gellir cyfeirio ymholiadau ar bynciau o ddiddordeb. Disgwylir ffurfio a sefydlu'r Grwpiau Trawsbleidiol yn ystod yr wythnosau nesaf hefyd. Rydym yn aros am i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei rhaglen lywodraeth.

*Dr Carys Moseley*



Saesneg. Cynhaliwyd hefyd gwrs hyfforddiant i flaenoriaid ar ddarllen y Beibl a gweddi yn y Drenewydd.

Parhawyd i gefnogi ein myfyrwyr yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd a myfyrwyr y Rhaglen Genhadol, a rhoddwyd grant i Souled Out a Blwyddyn Gap Coleg y Bala.

Mynegir diolchgarwch cywir i'r Cyfarwyddwr Academiaidd a'r Cydlynnydd Hyfforddiant a phawb arall a fu ynghylch Gwaith yr Adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

*Y Parchg Dr Elwyn Richards*


# Adran Gyhoeddi

## Y TRAETHODYDD

Mae Y Traethodydd yn dathlu ei ben blwydd yn 181 oed ag ail-lansiad ysgafn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llantwdd. Gofynnodd y golygydd i'r enwad am gefnogaeth yn hyn o beth a cheisiwyd gofod hysbysebu gan Golwg a Barn. Anfonwyd at Cytûn hefyd â chais i hysbysebu'r ail-lansiad ymhlith yr enwadau eraill. (Crybwyllwyd Cytûn fel awgrym, ansicr a anfonwyd atynt)

Mae ariannu'r cylchgrawn (cyhoeddiad) wedi mynd yn anos ers diddymu grant Cyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r panel yn dal i adolygu (yn agored i drafodaeth) y cyfle o symud y cyhoeddiad ar lein ond nid yw eto wedi cyrraedd penderfyniad terfynol.



Mae Y Traethodydd yn parhau'n bwysig i ni fel enwad ac, felly cyhoeddiad print Cristnogol hynaf yng Nghymru ers 1845, i'r genedl.

Mae'r panel felly'n parhau i gefnogi Y Traethodydd â grant cyllido o £5,000 y flwyddyn am 3 blynedd.

## CENN@d



Bu'r cyhoeddiad rhyngengwadol Cymraeg Cenn@d yn dathlu ei ben blwydd yn bump oed ym mis Mawrth ac fe ddiolchodd y panel i'r golygyddion, Huw Powell-Davies a Marian-Beech-Hughes, am eu diwydrwydd mewn parhau i gyhoeddi rhifynnau wythnosol drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhai a ddymuna ddarllen Cenn@d, gan gynnwys ei ôl-rifynnau, wneud hynny ar ebcpcw.cymru. Gallant hefyd danysgrifio i gopi papur.

## THE TREASURY

Yn fisol y cyhoeddir y papur newydd enwadol Saesneg The Treasury. Mae'r golygydd yn ddiolchgar am fod â



Treasury – costau  
2025 - £3956  
2026 - £3711

grŵp bach o gyfranwyr sy'n ysgrifennu'n gyson, yn cynnwys cyfraniad rheolaidd gan y Llywydd, Glynis Owen, gweinidog, Y Parch. Ddr Michael Ward, ac aelod o eglwys, Olivia Thorn.

Cenn@d – costau  
2025 - £36,134  
2026 - £31,924  
Ni sy'n talu 70% o'r gost = £22.5k




## CRISTION

Mae ar Cristion angen cynrychiolydd newydd. Mae'r panel wedi cysylltu ag ychydig o bobl ond nid oes neb wedi dod ymlaen eto i ymgymryd â'r swyddogaeth wag honno.

## Y CYLCHGRAWN HANES

Adroddodd Rhidian Griffiths fod y Cylchgrawn Hanes yn dal i dderbyn meintiau go lew o ddeunydd i'w gyhoeddi ac yn ceisio ychwanegu at hynny â mwy o erthyglau eciwmenaidd a helpai ddarllenwyr i ddeall hanes gwahanol enwadau.



## AP GWEDDI.PRAYER

Ar lein mae'r panel yn falch o weld lansiad yr ap gweddi Gweddi.Prayer. Un dwyieithog yw'r ap. Bydd gwirfoddolwyr ar draws ein henaduriaethau'n anfon gweddiâu at Rhian ar gyfer y mis. Mae'r ap yn cynnig gwybodaeth ynghylch newyddion a digwyddiadau. Mae'n galluogi'r defnydd o ddolenni, dogfennau a fideos i rannu gwybodaeth a gweddiâu.

Mae rhai henaduriaethau nad oes ganddynt wirfoddolwyr ac yr ydym yn dal i chwilio.

Mae'r panel yn edrych ymlaen at weld manylion o ryngweithio gan ddefnyddwyr maes o law.

### TUDALEN GWE

Mae'r panel wrth ei fodd o glywed bod y wefan ebcpcw.cymru wedi cael ei hailddylunio. Ar ôl cyrchu pedwar dyfynbris fe gomisiynodd yr enwad Webbox i adeiladu'r wefan am y gost amcan o £35,000 (£30,00).

Mae'r panel yn edrych ymlaen at y lansiad a gynllunnir i gyd-ddigwydd â'r Gymanfa Gyffredinol.

### PENNAETH CYFATHREBU

Yn ogystal â pharhau i gynhyrchu cyfres o fideos pregethu o'r enw "Ein Pregethwr Gwadd Heddiw yw..." a fideos wedi'u teilwra'n benodol ar weinidogaethau EBC, mae'r Pennaeth Cyfathrebu, Y Parch. Gwyn Rhydderch wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd sy'n trafod y Celfyddydau a Diwylliant (soniwyd am hyn yn y cyfarfod ond hyd y gwn i nid oes gweithredu wedi bod ynghylch hyn). Y mae wedi gwahodd gwahanol randdeiliaid i gymryd rhan i ystyried sut orau y gall yr Eglwys ddefnyddio'r doniau creadigol y mae Duw wedi'u rhoi inni.

*Y Parchg Jonathan Hodgins*



## Apwyntiadau newydd Gorffennaf '25 – Mehefin '26

Croesawyd nifer o weithwyr newydd hefyd:

- Marjorie Thomas fel Gweithiwr Cymunedol ym Mid Wales and Borders;
- Elaine Rees fel Swyddog Ieuenctid a Theuluoedd yn Arfon;
- Llinos Mai Morris fel Arloeswr Gwaith Ysgolion;
- Tim Heeley fel Gweithiwr Arloesol yn Fflint.
- Rhodri Phillips fel Gweithiwr Ymestyn Allan Cymunedol yn ardal Glanamau/Brynaman

Bu'n galonogol hefyd yn ystod y flwyddyn i groesawu dau weinidog o enwadau eraill i weinidogaethu yn ein plith. Yn dilyn trafodaethau a phroses briodol yn yr Hydref, derbyniwyd y Parch. Wayne Adams fel gweinidog o fewn y Cyfundeb, gyda'r Adran yn mynegi diolch i'r Arglwydd amdano a'i weinidogaeth.

Yn ogystal, derbyniwyd y Parch. Owen Griffiths yn weinidog ordeiniedig o fewn EBC.

Rydym yn ddiolchgar iawn am y ddau ac am y modd y maent eisoes yn cyfrannu at fywyd, arweinyddiaeth a thystiolaeth y Cyfundeb.



Y Parchg Owen Griffiths



Y Parchg Wayne Adams

# Cymorth Cristnogol

cymorth  
cristnogol  
christian  
aid

Mae'r Gymanfa yn gyfle i fynegi diolch o galon i aelodau EBC am bob rhodd, gweddi a chefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar ôl 80 mlynedd o wasanaethu, mae Cymorth Cristnogol yn parhau i ddarparu cymorth dyngarol brys a chefnogaeth hirdymor i gymunedau tlotaf y byd, gan ymateb i argyfyngau yn Myanmar, De Sudan, Lebanon, Gaza, y Llain Orllewinol, Gweriniaeth Ddemocrataidd Y Congo ac, yn ddiweddar, Venezuela. Mae presenoldeb ein partneriaid yn y gwledydd yn galluogi ymateb cyflym, ac mae ein cefnogaeth fel aelodau ac enwad yn cynnal gobaith parhaol.

Roedd Wythnos Cymorth Cristnogol yn uchafbwynt arbennig eleni, gyda Janet Ngombalu a Jane Wathome yn ymweld â Phenarth a Wrecsam, gan gynnig cipolwg uniongyrchol ar waith partneriaid yn Nairobi ac trwy wasanaeth rhithiol byw yn cysylltu ysgolion Cymru â myfyrwyr Ysgol Beacon of Hope yn Adgoretti, Nairobi. Mae ein gweithgareddau yn ystod yr Wythnos—y cerdded, y boreau coffi, y pobi, y cinio cynnil—i gyd yn dangos ein ffydd ar waith mewn gweithred ac yn galluogi ni i greu newid parhaol i'n cymdogion.

Buom hefyd yn rhan o'r alwad fyd-eang i weddio dros heddwch yn y Dwyrain Canol, ac mae adnoddau Heddwch Cyfiawn ar gael i'n cefnogi <https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/inspire-your-church-act-just-peace>

Cawsom ein herio i ymuno fel partner llawn yn The Just Peace Coalition <https://justpeacecoalition.com/> ac i gefnogi'r ymgyrch Time to Act, gan adeiladu ar ein hymrwymiad i heddwch cyfiawn. Ydym ni am dderbyn yr her?

Rydym wedi cael sawl cyfle i ymgyrchu ar ran ein cymdogion <https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/restore-campaign>

Mae ffocws arbennig yn yr Ymgyrch Adfer ar sut mae'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng dyled yn cydbblethu i parhau i gadw miliynau mewn tlodi.

Ydym ni am weithredu a derbyn y gwahoddiad fel eglwys ledled Cymru i godi ein lleisiau dros gymdogion bregus, gan hyrwyddo cyfiawnder hinsawdd a dyled, meithrin heddwch, a chydabod urddas pob unigolyn?

Mae cynllun archrediad Cymdogion Byd-eang Cymru wedi tyfu eleni, gyda phump ysgol gynradd yn ennill eu gwobrau cyntaf. Mae adnoddau newydd i ysgolion ar gael, gan gynnwys y gân arbennig Ffrindiau Byd-eang gan Martyn Geraint, sy'n adlewyrchu ein cenhadaeth i garu ein cymydog. <https://www.christianaid.org.uk/get-involved/schools/canu-dros-gyfiawnder>

Y llynedd ymrwymodd EBC i'r ymgyrch Ewyllys Da, menter sy'n cydnabod bod rhoddion mewn ewyllys yn ffordd ystyrlon o fendithio gwaith yreglwys yn lleol ac o greu newid parhaol yn fyd-eang. Er bod y sgwrs am gymunroddion yn gallu bod yn heriol i'w chychwyn, mae'r ymgyrch yn cynnig dulliau sensitif ac ymarferol i gefnogi aelodau—ac fe glywn fwy am hyn yn 2026.

Ac i orffen, pedair blynedd ers lansio Hadau Gobaith, mae'n bryd ystyried apêl enwadol newydd ar y cyd â Chymorth Cristnogol.

Dyma gyfle eto i ni ddangos, drwy ein gweithredoedd, ein rhoddion a'n gweddiau, ein bod ni gyd gyda'r gallu i wneud gwahaniaeth.

*Cheryl Williams*



# Y Cadarnhaol o Holiaduron Gweinidogaeth a Chenhadaeth (2025)

## Y Cadarnhaol o Holiaduron Gweinidogaeth a Chenhadaeth (2025)

Roedd yr Holiaduron Gweinidogaeth a Chenhadaeth a ddychwelwyd yn 2025 yn nodi bod :

- 626 o blant yn mynychu 67 o Ysgolion Sul
- 354 yn mynychu 24 o Glybiau Ieuencid
- 1720 yn mynychu gwasanaethau teuluol mewn 81 o leoliadau

- 88 o Fedyddiadau Babanod
- 16 o grwpiau i Rieni a Phlant Bach
- 110 o achosion yn rhedeg, yn helpu neu'n cynnal Banciau Bwyd
- 21 o Mannau Cynnes
- 109 o 'ymestyn allan arall' gan gynnwys boreau coffi, grwpiau i bobl hŷn a chiniawau cymunedol

## Yr Adran Adnoddau

A'r Gymanfa Gyffredinol eleni'n ddigwydiad 24 awr, roedd angen i Adroddiad yr Adran Adnoddau, fel llawer o'r adroddiadau busnes eraill, ganolbwyntio fwy ar yr eitemau hynny a oedd yn gofyn am benderfyniadau a chymeradwyaeth yn hytrach na'r rhai a oedd yn fwy o fater o wybodaeth. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r eitemau nas trafodwyd yn bwysig, maent yn dal i fod yn rhan o Lais y Gymanfa felly fe geisïaf dynnu sylw at lawer o'r eitemau allweddol yn y fan hon.

### Cydnabyddiaeth a Chyflogau 2027

Yn unol â chwyddiant, cytunodd y Gymanfa i **gynnydd o 3% mewn cydnabyddiaeth a chyflogau** o'r 1<sup>af</sup> o Ionawr 2027.

### Cyfraniad Cenhadaeth a Gweinidogaeth 2027

Mae "Cyfraniad Cenhadaeth a Gweinidogaeth" yn dipyn o lond ceg, felly gadewch inni alw'r cyfraniad arno. Dyma'r cyfraniad y gofynnir i bob aelod ei wneud tuag at gost ariannu ein henwad yn gyffredinol, a Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn benodol. Fel yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, wrth osod y cyfraniad ar gyfer 2027 ysgogwyd cryn drafodaeth ynghylch y ffordd y pennir y cyfraniad.

Y cyfraniad yw'r ffynhonnell fwyaf o gyllid i'r Cyfundeb, ond nid yr unig un, daw'r incwm i redeg EBC o'r canlynol

- Cyfraniadau (h.y. Y Cyfraniad Cyfundebol).
- *Incwm o fuddsoddiadau\**
- *Rhoddion, etifeddiaethau a grantiau\**
- *Gwerthu eiddo\**
- Incwm rhent o feddiannau a ddelir yn ganolog.

Bydd y cyfraniad yn anorfod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn rhannol oherwydd cynnydd mewn cydnabyddiaeth a chyflogau (3% ar gyfer 2027) ac yn rhannol am fod ein haelodaeth yn lleihau ar gyfradd gyfartalog o 8% y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf. Felly, mae'r costau cynyddol yn cael eu rhannu rhwng llai o bobl. Ond nid dyna'r unig gymhlethdod. Wrth geisio penderfynu ym mis Gorffennaf eleni pa gyfraniad y mae

angen inni ofyn i bobl ei wneud i gwrdd â chostau'r flwyddyn ganlynol, ni wyddom faint yr ydym yn mynd i'w dderbyn o ffynonellau eraill y flwyddyn nesaf. Ychydig iawn o reolaeth sydd gennym dros incwm o fuddsoddiadau, rhoddion ac etifeddiaethau, ac yn enwedig cyfanswm gwerth y meddiannau a werthwn y flwyddyn nesaf, a'r rheini i gyd yn gallu amrywio'n fawr. Felly, wrth osod y cyfraniad, mae angen inni geisio rhagweld pa ganran o'n costau y mae arnom angen i'r cyfraniad gwrdd â hi. "Y lluosydd" yw'r enw a roddwn i hyn (mae'n swnio'n well nag "amcan gorau"), gosododd Cymanfa Gyffredinol y llynedd y cyfraniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol hon ar 0.72, h.y. dylai'r cyfraniad gwrdd â 72% o gost gweinidogaeth a chenhadaeth. Yr argymhelliad gan yr Adran Adnoddau oedd gosod y lluosydd ar **68.5% ar gyfer 2027**. Daeth yr argymhelliad i leihau'r lluosydd fel rhywfaint o syndod ond fe eglurwyd bod y cyfundeb i dderbyn swm gwarged pensiwn untro wrth i'r Cynllun Pensiwn gael ei ddirwyn i ben. O ganlyniad, mae'r ffawddincwm hwn yn golygu mai dim ond cyfran lai o'r costau y mae eisiau i'r cyfraniad gwrdd â hi.

Trafodwyd awgrym gan un o'r cynrychiolwyr y dylem, am fod ein cyfraniad yn is nag un llawer i enwad arall, gadw'r cyfraniad ar 72% neu hyd yn oed ei gynyddu i ddarparu mwy o gyllid at Weinidogaeth a Chenhadaeth. Yr oedd peth cydymdeimlad â sentiment yr awgrym hwn, ond realiti'r sefyllfa oedd mai'r rheswm i'r Adran Adnoddau argymhell lleihad oedd bod llawer o'n heglwysi mewn cyfyngder ariannol a bod swm y cyfraniad sydd heb ei dalu'n cynyddu bob blwyddyn. Yr oedd y ffigwr ar ddiwedd 2025 dros £0.553 miliwn. Y pryder oedd, os codwn y swm y gofynnwn i aelodau ei dalu drwy'r cyfraniad, y gall y cynnydd yn y cyfraniad sydd heb ei dalu arwain at fod llai ar gael at Weinidogaeth a Chenhadaeth. Felly, fe dderbyniwyd yr argymhelliad i'r lluosydd gael ei osod ar **68.5% a bod y Cyfraniad Cenhadaeth a Gweinidogaeth ar gyfer 2027 fel y dangosir yn y tabl canlynol.**

|                              | Cymdeithasfa yn y Gogledd a'r De | Cymdeithasfa yn y Dwyrain |      |        |
|------------------------------|----------------------------------|---------------------------|------|--------|
|                              | 2027                             | 2026                      | 2027 | 2026   |
| Gweinidogaeth Lawn/Ran Amser | £215                             | (£209)                    | £298 | (£289) |
| Difugail                     | £141                             | (£137)                    | £259 | (£251) |
| Enwadau Eraill               | £74                              | (£72)                     | £102 | (£99)  |

Ecumenical Contributions 2027

Bob blwyddyn bydd y cyfundeb yn gwneud cyfraniadau ariannol at amryw o gyrff y mae gennym bartneriaeth a chydberthynasau gwaith agos â hwy. Pwrpas rhai o'r taliadau hyn yw cefnogi gwaith y cyrff hynny a chaniatáu inni gael budd o'r bartneriaeth. Y rheswm dros rai eraill, megis y panel diogelu, yw bod y corff yn darparu gwasanaeth yr ydym yn talu amdano.

Yn y Gymanfa Gyffredinol ddiwethaf, cytunwyd, gan fod y cyfanswm yn un sylweddol, yr ymgwymerem ag adolygiad o berthnasedd a budd y cydberthynasau hyn. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud, a chyflwynwyd y rhestr o gyfraniadau a oedd wedi'u hargymell i'r Gymanfa. Nododd hyn nifer o gyrff lle teimlid bod dyblygu â gwaith tebyg i'r hyn a wneir gan gyrff eraill yr ydym yn eu cefnogi, yn enwedig Cytûn. Dangosai'r rhestr newydd wedi'i hargymell arbedion o £8000 o'i chymharu â rhestr 2025/26. Gwnaed ple, a chytunwyd ar welliant, i barhau â'r cyfraniad o £750 at Grŵp yr Eglwysi Rhyddion gan fod teimlad bod aelodaeth o'r grŵp hwnnw o fudd i'r cyfundeb. **Âr gwelliant hwn, cytunwyd y rhestr wedi'i hargymell o gyfraniadau.**

Oed y Ddyled

Dyma'r term a roddir i'r gwahaniaeth rhwng y swm y dylem ei dderbyn o'r cyfraniad a'r hyn yr ydym mewn gwirionedd yn ei dderbyn, ar sail y ffigurau aelodaeth a ddarperir gan ein heglwysi.

Oed y ddyled yn ystod y pedair blynedd diwethaf:

Mae'n amlwg bod hyn yn fater o gryn bryder. Nododd yr adroddiad bedwar gwahanol gategori posib i'r rhesymau nad yw eglwysi'n talu'r cyfraniad.

- 1. Rhai sy'n barhaus heb dalu dros flynyddoedd lawer.
- 2. Dyled etifeddol am gyfnod yn aros ar y llyfrau, ond mae'r eglwysi'n gyfredol â thaliadau presennol. Gallai hyn fod

- oherwydd nifer o faterion gweinyddol â thrysoryddion yn newid neu fynediad at gyfrifon banc ac ati.
- 3. Archebion sefydlog heb eu diweddarau – mae hyn yn broblem gyffredin, mae llawer o'n blaenoriaid a'n trysoryddion yn heneiddio ac yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y gangen agosaf â ffurfleni Archeb Sefydlog. Nid yw cau banciau lleol yn help yn hyn o beth.
  - 4. Eglwysi heb fod yn gallu talu fwyach.

Ystadegau

Aelodaeth  
Cyfanswm Aelodaeth: **11,430**  
Aelodau o dan 25: **275**  
Nifer yr Achosion: **443**  
Bu lleihad blynyddol yn yr aelodaeth o 8% yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Ymhlith pethau eraill o bwys yn adroddiad yr Adran Adnoddau mae'r canlynol:

- Adroddiad calonogol ar y defnydd cynyddol o Goleg Trefeca a'r cynlluniau ar gyfer 2027 a thu hwnt.
- Adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i adnewyddu'r tŷ yng Ngholeg y Bala yn barod i Lois a Ben Franks a'u teulu symud i mewn i ymgyrdd â swyddogaeth newydd Lois i ddatblygu ymhellach ei waith fel canolfan hyfforddiant a chenhadaeth i blant, pobl ifainc a theuluoedd y cyfundeb. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod gwaith diflino Owain a Siân Edwards dros bron i 20 mlynedd.
- Diweddariad ar ddatblygiad cyfredol ac arfaethedig Capel y Bont, a'r cais am grant sydd wedi'i wneud i Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.
- Pryder bod nifer gynyddol o'n heglwysi lleol sydd o hyd heb gydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyfreithiol o ran gosod Tai Capel a chyn-Fansau i'w rhentu.

Steve Wynn

| Henaduriaeth                | Diwedd 2025 | Diwedd 2024 | Diwedd 2023 | Diwedd 2022 |
|-----------------------------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| Arfon                       | £4,650      | £10,106     | £10,775     | £5,713      |
| Conway a Dyfrdwy            | £42,728     | £56,402     | £37,606     | £34,724     |
| Dyffryn Clwyd               | £62,725     | £59,702     | £34,963     | £48,122     |
| Gogledd Ddwyrain            | £9,506      | £10,246     | £7,685      | £7,088      |
| Gorllewin Gwynedd           | £55,479     | £60,493     | £53,437     | £45,018     |
| Mon                         | £38,186     | £35,969     | £31,895     | £32,451     |
| Trefaldwyn                  | £34,316     | £30,219     | £26,740     | £24,918     |
| Ceredigion a Gogledd Penfro | £122,568    | £179,025    | £161,211    | £148,479    |
| Morgannwg Llundain          | £91,119     | £81,951     | £54,324     | £35,692     |
| Myrddin                     | £7,169      | £9,384      | £8,243      | £10,803     |
| Mid Wales and Border        | £22,597     | £19,123     | £11,602     | £1,753      |
| Northern                    | £15,830     | £16,137     | £20,055     | £20,001     |
| Southy East Wales           | £15,090     | £9,011      | £9,132      | £6,979      |
| South West Wales            | £9,195      | (£1,715)    | £2,426      | £9,983      |
| Enwadau Eraill              | £12,165     | £9,772      | £7,299      | £5,851      |
| Cyfansymiau                 | £553,330    | £579,852    | £477,409    | £437,783    |

# Y Gymdeithas Hanes

Testun darlith y Gymdeithas Hanes gan Dr Gareth Evans-Jones o Brifysgol Bangor yng Nghymanfa eleni oedd archwilio agweddau ar 'y gydwybod Gymreig' mewn perthynas ag ymateb Cristnogion i broblemau gwleidyddol dyrys, yn amrywio o glirio Epynt yn 1940 i sefyllfa ddirdynnol Gaza yn ein dyddiau ni. Cafwyd dadansoddiad meddylgar gan y darlithydd o'r cwestiynau hyn, a'r ymateb iddynt gan gredinwyr wedi'i trwytho yn athrawiaethau'r Beibl. Disgwylir cyhoeddi'r ddarlith yn y *Cylchgrawn Hanes* yn 2027.

Bydd *Cylchgrawn Hanes* 2026 yn cynnwys Darlith Hanes yr Athro Densil Morgan ar Emrys ap Iwan a draddodwyd yng Nghymanfa Gyffredinol Llandudno yn 2025, ynghyd ag erthyglau ar Henry Richard yr Apostol Heddwch, John Roberts 'Minimus', ysgrifennydd cyntaf y Genhadaeth Dramor, a'r cenhadwr Isaac Hughes.

Mae'r gwaith o ddigido rhifynnau'r *Cylchgrawn Hanes* o 1916 hyd 2018 wedi ei gwblhau, a diolchwn i'r Llyfrgell Genedlaethol am eu cydweithrediad yn y prosiect. Ein gobaith yw darparu'r ffeiliau digidol ar wefan y Cyfundeb lle bydd modd i bawb gael mynediad atynt a phori yn y cyfoeth a geir mewn canrif a mwy o astudiaethau ar hanes Methodistiaeth yng Nghymru.

*Dr Rhidian Griffiths*



Y Ddarlith Davies 2026

"O Gapel Celyn i Balesteina: Y Gydwybod Gymreig?"

Dr Gareth Evans-Jones

<https://youtu.be/gL60Gh7wJG4>



## "Ffydd nid Ofn"

Yn dilyn y Gynhadledd Adeiladau, roedd y Gymanfa Gyffredinol eleni yn dymuno cael gwell dealltwriaeth o'n hystâd ac ailgadarnhau ein pwrpas.

Rydym yn cydnabod, ynghyd â sefydliadau ffydd eraill, ein bod yn wynebu cyfnodau heriol a byddem yn annog camu allan mewn ffydd nid ofn, gyda gobaith am ddyfodol yr enwad a'i dystiolaeth.

Credwn fod ein heglwysi a'n capeli wedi'u galw i fod yn **ganolfannau cenhadaeth a goleuni Crist** yn eu cymunedau. Dylai pob lle addoli ddisgleirio fel tŷ gweddi, cartref croeso a gwasanaeth, lle mae ffydd yn cael ei byw allan mewn ffyrdd sy'n trawsnewid bywydau. Felly, ein ffocws yw'r **goleuni a ddygwn i fywydau pobl, y gobaith a enynnwn yn ein cymdogaethau, a'r dystiolaeth a ddygwn i Grist.**



Ein gweledigaeth yw i bob capel ac eglwys ganolbwyntio ar ymestyn allan a bod:

- **Yn ysbrydol fywiog** – wedi'i wreiddio mewn addoliad a bod yn ddisgyblion, gan gyfarparu pobl i fyw a rhannu'r efengyl gyda ffydd sy'n ysbrydoli gobaith.
- **Yn ymgysylltu â'r gymuned** – yn adnabod ac yn gwasanaethu eu cymuned yn weithredol trwy ymateb ac addasu i anghenion y gymuned leol gyda thrugaredd, cyfiawnder a lletygarwch.
- **Wedi'u rheoli'n gynaliadwy** – gydag adeiladau sy'n addasadwy, yn gyfrifol yn amgylcheddol, ac yn hyfwr yn ariannol.
- **Adeiladau croesawgar** – yn cefnogi ymestyn allan, cenhadaeth a gweinidogaeth yr eglwysi yn addas.
- **Cydweithio mewn cenhadaeth** – gweithio ochr yn ochr ag eglwysi, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i gael mwy o effaith.

Fel mae adroddiad Adfywiad Tawel gan Gymdeithas y Beibl yn ein hatgoffa, o dan wyneb bywyd modern mae agoredrwydd dwfn, a chudd yn aml, i weddi ac i'r Ysgrythur. Ein galwad yw meithrin yr adfywiad tawel hwnnw, gan ei helpu i dyfu'n ffydd fyw, weladwy sy'n adnewyddu pobl, teuluoedd a chymunedau.

Mae ymchwil diweddar Adfywiad Tawel Cymdeithas y Beibl yn dangos arwyddion o dwf newydd, gyda phresenoldeb misol mewn eglwysi yng Nghymru a Lloegr yn codi o tua 8% yn 2018 i 12% yn 2024. Y cynnydd mwyaf yw ymhlith pobl 18-24 oed, lle mae presenoldeb wedi tyfu o 4% i 16% — ac ymhlith dynion ifanc yn y grŵp oedran hwnnw mae wedi neidio o 4% i 21%.

"Ac eto ni adawodd ei hun heb dyst, gan iddo gyfrannu bendithion: rhoi glaw ichwi o'r nef, a thymhorau ffrwythlon, a chyflawnder calon o luniaeth a llawenydd." (Actau 14:17)

"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchymynion a roddais i chi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chi yn wastad hyd ddiwedd amser." (Mathew 28:19-20)

# Panel Diogelu Cydenwadol

Dros y blynyddoedd diwethaf bu dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd diogelu o fewn yr Eglwys Gristnogol, ac mae'r Comisiwn Elusennau'n nodi'n glir fod angen i ddiogelu fod yn flaenoriaeth llywodraethu, nid yn ychwanegiad dewisol, i bob elusen! Mae llawer o'n heglwysy'n deall hyn ond mae yna le i wella o hyd.

Rydym yn parhau i ddefnyddio argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i fonitro a gwella ein gweithdrefnau. Yn unol â hyn, eleni gwnaethom gyhoeddi ein

[Canllawiau ar ymateb yn dda i oroeswyr/ dioddefwyr camdriniaeth](#) ac rydym yn gweld cynnydd mewn arweinyddiaeth ddiogelu leol, gyda mwy o gydlynwyr diogelu lleol, cyrsiau hyfforddi ar gyfer cydlynwyr lleol a hyfforddiant ar gyfer person diogelu'r Henaduriaeth ar y ffordd.

Mae ein hadnoddau'n hwyluso prosesau diogelu ond, wrth gwrs, nid ydynt yn effeithiol ond os cânt eu defnyddio'n lleol. Rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd [recrwtio mwy diogel](#) a chyfrifoldeb yr eglwys leol i sicrhau bod eu gwirfoddolwyr yn gwneud hyfforddiant rheolaidd a gwiriad DBS bob 4 blynedd.

Bob blwyddyn ers y cyfnod clo rydym wedi gweld cynnydd mewn [ceisiadau DBS](#), peth sy'n dangos bod gwaith

## Panel Diogelu Cydenwadol Interdenominational Safeguarding Panel

**DIOGELU**  
**yn yr Eglwys hon**  
...rydym o ddifrif

Os oes gennych bryderon am blentyn neu oedolyn bregus neu angen cymorth, cyngor neu wybodaeth :



**Panel Diogelu Cydenwadol**  
**Interdenominational Safeguarding Panel**  
**01745 817584 / 07957 510346**  
post@panel.cymru  
**tu allan i oriau swyddfa (ac ar benwythnosau)**  
**galwch llinell gymorth thirtyone: eight**  
**0303 003 1111**  
**thirtyone: eight**  
Creating safer places Together.

**MEWN ARGYFWNG : GALWCH 999**

Evch i wefan y Panel am fwy o wybodaeth neu defnyddiwch y cod QR i adrodd am bryder  
**<https://panel.cymru>**  


**ein CYDLNYDD DIOGELU lleol yw:**

**Diogelu yw...**

**AMDDIFYN** pobl fregus rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.  
**ADNABOD** arwyddion a nodweddion camdriniaeth ac **YMATEB** mewn modd priodol.  
Mae'n **ATALIOL** yn ogystal ag yn **AMDDIFFYNNOL** ac yn cynnwys **DARPARU GWEITHGAREDDAU** **DIOGEL** a **GOFAL** PRIODOL.



**Os oes gennych bryderon am blentyn neu oedolyn bregus neu angen cymorth, cyngor neu wybodaeth**



**Panel Diogelu Cydenwadol**  
**Interdenominational Safeguarding Panel**  
**01745 817584 / 07957 510346** **panel.cymru**

**childline**  
ONLINE, ON THE PHONE, ANYTIME  
childline.org.uk | 0800 1111

**Hourglass** | 0808 808 8141  
Safer ageing - Stopping abuse

**thirtyone: eight** | 0303 003 1111  
Creating safer places Together.

**Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**  
**0808 80 10 800**  
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost

**MEWN ARGYFWNG GALWCH:**  
**HEDDL 999 neu GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**  
**ein CYDLNYDD DIOGELU lleol yw:**

gyda phlant ac oedolion bregus yn parhau mewn llawer o'n heglwysy. Eleni, gwnaethom ddechrau defnyddio gwasanaeth DBS ar-lein thirtyone: eight ochr yn ochr â'n proses bapur. Mae proses ddigidol yn gynt ac yn caniatáu mynediad at wirio hunaniaeth yn ddigidol. Yn anffodus, nid yw hyn ar gael yn Gymraeg.

Mae [hyfforddiant](#) yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd i sicrhau ymwybyddiaeth o'r polisi diogelu a sut i ymateb i bryderon. Mae hyfforddiant yn tynnu sylw at adnoddau allweddol fel ein cod ymddygiad ar gyfer gwirfoddolwyr a rhestr wirio ar gyfer recrwtio. Mae Safonau Hyfforddiant Diogelu Cymru'n nodi y dylai gweinidogion a gwirfoddolwyr ailwneud hyfforddiant diogelu bob tair blynedd.

Bu'n flwyddyn brysur eto gyda naw ar hugain o [achosion diogelu](#). Roedd y mwyafrif angen cyngor gan ein swyddog diogelu ond fe gafodd 12 eu cyfeirio at asiantaethau statudol neu gymorth arall. Rydym yn ariannu mynediad at linell gymorth thirtyone: eight i sicrhau bod cymorth ar gael y tu allan i oriau swyddfa hefyd.

Mae'r Panel yn cyflogi dau aelod o staff rhan amser ac wedi derbyn incwm o £29,000 y flwyddyn gan bob un o'r tri enwad ers 2023. Bydd angen ailasesu hyn eleni wrth i'r cylch cyllido 3 blynedd ddod i ben.

Diolch am gydweithio â ni eleni i wneud ein heglwysy yn llefydd mwy diogel i bawb.

**Julie Edwards**

# Eglwys Bresbyteraidd India yn dathlu canrif o fodolaeth



Yn ystod mis Ebrill a dechrau Mai cafodd Nan a minnau y fraint o ymweld, â Gogledd-ddwyrain India ar achlysur dathliadau canmlwyddiant sefydlu Eglwys Bresbyteraidd India fel un eglwys unedig o dan Gymanfa Gyffredinol. Cynhaliwyd y dathliadau yn Shillong, Meghalaya, gyda miloedd yn ymgynnull o'r deuddeg Synod sy'n ffurfio'r eglwys, yn cynrychioli tua 1.6 miliwn o Gristnogion ar draws y rhanbarth.

Roedd y dathliadau yn dystiolaeth rymus o ffyddlondeb Duw dros genedlaethau ac o'r berthynas hanesyddol ddofn rhwng Cymru a'r eglwys yn y rhan hon o'r byd. Cawsom ein hatgoffa o waith cenhadon o Gymru, yn arbennig Thomas Jones o Feriw a'i wraig Anne, a gyrhaeddodd Fryniau Casia ym 1841. Er gwaethaf yr heriau, y colledion a'r aberthau mawr a wynebwyd dros y blynyddoedd, mae'r Efengyl wedi gwreiddio'n ddwfn ymhlith y llwythau a'r cymunedau niferus sy'n byw yn y rhanbarth hwnnw.

Roedd yn brofiad emosiynol gweld cynrychiolwyr o gymaint o lwythau a chymunedau yn addoli gyda'i gilydd mewn undod, gan dystio i ras a nerth Iesu Grist. Yn arbennig, roedd yn symud gweld cynrychiolwyr o dalaith Manipur yn bresennol er gwaethaf y gwrthdaro a'r tensiynau difrifol

sy'n parhau yn yr ardal honno. Cawsom gyfle i wrando ar eu hanesion, i rannu am apêl a gweddi EBC drosynt, ac i ailgadarnhau ein partneriaeth a'n cefnogaeth iddynt.

Yn ystod yr ymweliad cawsom hefyd gyfle i ymweld ag Ysbyty Gordon Roberts yn Shillong a gweld y gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo yno, yn ogystal â thrafod cynlluniau gyda Choleg Diwinyddol John Roberts. Roedd yn galonogol gweld y gwaith yn mynd o nerth i nerth ac i weld y berthynas rhwng Cymru ac eglwysi Gogledd-ddwyrain India yn parhau'n fyw ac yn ffrwythlon.



Wrth ddychwelyd adref roeddem yn ddiolchgar am y fraint o gael bod yn rhan o'r dathlu hanesyddol hwn ac yn rhyfeddu at undod yr eglwys yng nghanol amrywiaeth ddiwylliannol a heriau gwleidyddol mawr. Mae'r berthynas rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd India yn parhau'n berthynas werthfawr o ffydd, cyfeillgarwch a thystiolaeth ar y cyd i Efengyl Iesu Grist.

*Y Parchg Huw Powell-Davies*

## Coleg y Bala

Cyhoeddwyd newyddion da am Goleg y Bala yn y Gymanfa eleni, bod Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid wedi ymrwmo i gynnal ac ariannu nifer penodedig o gyrsiau yn y coleg pob blwyddyn. Bydd cyllideb yn cael ei chyflwyno i'r Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid, gan yr Adran Gweinidogaethau, o 2029 ymlaen, i gynnal ei waith yn y coleg ac ymysg yr eglwys'n genedlaethol. Bydd y dull presennol o gynnal y coleg yn parhau hyd ddiwedd 2028, cyn i'r drefn newydd gymryd lle yn 2029.

Daeth y newyddion hyn am ariannu'r gwaith yn y coleg i ben â'r ansicrwydd am sut y bwriedid ariannu'r coleg, ar drothwy dathlu 60 mlynedd o weinidogaeth ymysg plant ac ieuenctid yn y coleg. Cyhoeddwyd hefyd y byddai'r Adran Gweinidogaethau yn apwyntio Lois Franks yn un o'i swyddogion arloesol, dros gyfnod o dair blynedd, i arwain gwaith strategol newydd ar ddatblygu cynllun busnes, marchnata a chynladwyedd. Merch o Gaerdydd yw Lois yn wreiddiol ond ar hyn o bryd yn byw ym Mhontypridd gyda'i gŵr Ben a 4 o blant. Bu Lois yn aelod o'r Cynllun Blwyddyn Gap yn y coleg yn ystod 2007-2008. Dysgodd Gymraeg tra'n gweithio yn y coleg bryd hynny a bellach mae'n rhugl yn y Gymraeg.



Ddiwedd Ebrill, ymddeolodd Owain a Siân Edwards fel Rheolwyr Coleg y Bala. Mynegwyd diolch iddynt am bron 20 mlynedd o waith gwaith diflino fel rheolwyr, cyfnod pan y manteisiodd miloedd o blant ac ieuenctid ar eu harweinyddiaeth a'u bugeiliaeth dyner. Cyhoeddir hysbyseb yn y dyfodol agos am Reolwr Gweithrediadau yn y coleg, i reoli'r ganolfan fel canolfan breswyl. Mynegwyd diolch y Cyfundeb hefyd i'r arloeswyr cynnar a fentrodd sefydlu'r coleg fel Canolfan Plant ac Ieuenctid a chofwyd yn arbennig am y Parchg Dafydd H Owen, y Caplan Ieuenctid cyntaf, a fu farw yn 90 oed yn Ebrill eleni.

Cymhennwyd Tŷ'r Coleg yn ddiweddar, ar gyfer lletya Lois Franks a'i theulu. Golygodd hynny osod pibellau a rheiddiaduron gwres canolog newydd trwy'r tŷ, i gymryd lle'r rhai a osodwyd dros 40 mlynedd yn ôl ac a brofodd yn annigonol dros y blynyddoedd, ac ail-addurno'r tŷ yn fewnol. Bydd Lois a'i theulu'n adleoli eu hunain i'r Bala o fewn wythnosau i gychwyn ar ei swydd hi ar 1 Medi eleni. Diolchir i'r Adran Adnoddau am y nawdd atodol hael, a fu'n ddigon o'r bron i gyfarfod cost y gwaith cymhennu.

*Hywel Davies*

## Youtube EBC

The screenshot shows the YouTube Studio interface for the channel 'EBCPCW'. The 'Channel content' tab is selected, displaying a list of videos. The videos are:

- AN INTERVIEW WITH... THOMAS ELLIS WILLIAMS**: The Revd Gerlin Russell-Jones interviews Thomas Ellis Williams, a former barister from Caerdydd, about his ministry at Eglwys y Crwys, Caerdydd. (14:48)
- Darlith Adran Hanes: 'O Gapel Celyn i Balesteina: Y Gydwbybod Gy...**: Darlith Adran Hanes Y Gymanfa Gyffredinol 'O Gapel Celyn i Balesteina: Y Gydwbybod Gymreig' Dr GARETH EVANS-JONES, MA 6ed Gorffennaf 2026... (45:00)
- Darlith Davies - 'Methodistaeth Galfinaidd a'r Gymru newydd', Y P...**: Darlith Davies Y Gymanfa Gyffredinol 'Methodistaeth Galfinaidd a'r Gymru newydd' Y PARC DR ANDRAS IAGO 6ed Gorffennaf 2026 Capel y Porth... (50:34)
- HOLI HWN A HOLI... THOMAS ELLIS WILLIAMS**: Y Parchg Gerlin Russell-Jones yn holi Thomas Ellis Williams, y cyf... (14:48)

<https://www.youtube.com/channel/UCbq8MrpmPxSSkwt4Hh6VYMw>

# Gwaith Plant ac Ieuenctid

Yn naturiol, canolbwynt ein cyflwyniad eleni oedd y newidiadau sydd ar droed yng Ngholeg y Bala, ein canolfan Plant ac Ieuenctid.

Yn gyntaf, hoffem fynegi ein diolch enfawr a'n gwerthfawrogiad syfyrdanol i Owain a Siân Edwards am eu hymroddiad i ofalu, gwasanaethu, mentora a rhannu eu cartref a'u bywydau â chymaint ohonom, gan dystio i ofal tyner a charedig ein Harglwydd Iesu. Drwy nerth yr Ysbryd, gwelir eu hetifeddiaeth ledled ein gwlad mewn eglwysi, clybiau, ysgolion, teuluoedd ac unigolion sy'n ffynnu yn eu ffydd a'u cerddeddiad gyda'r Arglwydd.

Roedd hefyd yn hyfryd clywed gan Angharad Clwyd wrth iddi rannu am y cyrsiau haf sydd ar gael i blant, ieuenctid a theuluoedd ein heglwysi. Mae'r cyrsiau hyn yn gyfle



amhriiadwy ac yn adnodd gwerthfawr i arweinwyr annog eu cynulleidfaoedd i fynychu, ac i dderbyn bendithion


Duw drwy weithgareddau, cyfeillgarwch, gweddi, addoliad a dysgu o'r Beibl.

Yn olaf, cawsom air gan Lois Franks, a fydd yn cymryd yr awenau yn y Coleg o fis Medi ymlaen. Bydd hi a'i theulu yn ymgartrefu yn y Bala, ddegawd wedi iddi fod yn fyfyrwraig ar y cynllun Blwyddyn Gap yno. Roedd calon Lois dros Gymru a'r Cymry yng ngoleuni'r efengyl yn amlwg, a gweddi'n yn daer y bydd yr Arglwydd yn bendithio eu pennod newydd yno.

Catrin Hampton




## Facebook EBC



<https://www.facebook.com/EBCPCW>

## Capel Y Bont

Ffilm am gymuned ffydd gynhwysol yng nghanol Pontypridd  
[https://youtu.be/j1MIG4Go\\_PY](https://youtu.be/j1MIG4Go_PY)



## Cyngor Ysgolion Sul Cymru 2025

Bu 2025 yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol i Gyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair. Cafwyd cyfleoedd i ymweld â henaduriaethau, cyfundebau ac eglwysi ledled Cymru, cynnal nosweithiau adnoddau, mynychu gwyliau enwadol a chenedlaethol, a chryfhau cysylltiadau â phartneriaid ar draws yr enwadau. Bu cyfnod sabothol o dri mis i'r Cyfarwyddwr, Aled Davies, yn dilyn 35 mlynedd o wasanaeth.

Parhaodd y gwaith o ddatblygu adnoddau Cymraeg ar gyfer plant, ieuenctid ac eglwysi. Mae ystod eang o ddeunydd bellach ar gael ar gyfer Ysgolion Sul, clybiau plant, addoli ac ysgolion, a'r her bellach yw annog eglwysi ac ardaloedd i'w defnyddio drwy gydweithio lleol ac ecwmenaidd.

Cyhoeddwyd naw llyfr newydd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cyfrolau ar weddi, myfyrdodau, pererindod, hanesion ffydd a newid hinsawdd. Ar yr un pryd, gwnaed cynnydd sylweddol ar raglen gyhoeddi 2026, gyda nifer o gyfrolau newydd ar y gweill, gan gynnwys gwaith ysgolheigaidd, bywgraffiadau, adnoddau plant a phrosiect **Beibl mewn 10**.

Parhaodd datblygiad y pum gwefan, gyda nifer o adrannau newydd ar ysgolsul.com a cristnogaeth.cymru, ychwanegu cannoedd o adnoddau i gair.cymru, a pharatoi ail-

lansiad gobaith.cymru. Ehangwyd hefyd gynnwys Teledu Cristnogol Cymru gyda phodlediadau a chaneuon Cymraeg cyfoes.

Bu'r Cyngor yn bresennol mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Sioe Frenhinol, cynadleddau enwadol a digwyddiadau hyfforddi. Cyflwynwyd saith Medal Gee mewn pedwar lleoliad i gydnabod gwasanaeth ffyddlon gwirfoddolwyr lleol.

Parhaodd y gwaith gyda deunydd addoli Roots, gyda gwefan a dyluniad newydd yn cael eu cyflwyno, tra bo'r adnoddau Cymraeg wythnosol yn parhau. Mynychwyd hefyd Ffair Lyfrau Ryngwladol Llundain a chyfarfodydd rhyngwladol yn ymwneud ag addysg Gristnogol.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'w swyddogion, ymddiriedolwyr, partneriaid ac enwadau am eu cefnogaeth ariannol ac ymarferol. Er gwaethaf heriau sy'n wynebu eglwysi Cymru, mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi mentrau newydd, cryfhau gwaith gyda phlant a theuluoedd, a gwasanaethu'r eglwysi drwy ddarparu adnoddau Cymraeg o safon ac annog cydweithio ar draws yr enwadau.

*Y Parchg Aled Davies*

*Cyngor Ysgolion Sul / Cyhoeddiadau'r Gair*

